Adroddiad Annibynnol: Harneisio Cyfraith Lloegr ar gyfer Twf Economaidd

Gan Hook Tangaza, Mawrth 2026

Crynodeb Gweithredol

Cyflwyniad

Yn yr adroddiad hwn, crynhoir canfyddiadau adolygiad hwy o'r rhan y mae cyfraith Lloegr yn ei chwarae mewn cefnogi gweithgarwch economaidd yn y DU a'r byd ehangach ac edrychir ar sut y gellid gwella'r rhan honno fwy fyth yn y dyfodol.

Mae canolbwyntio ar gyfraith Lloegr, yn hytrach nag ar wasanaethau cyfreithiol neu ddatrys anghydfodau yn rhywbeth bwriadol. Y bwriad yw creu naratif newydd ynghylch sut y gallai'r DU gipio mwy o werth i sector cyfreithiol y DU yn y dyfodol o farchnadoedd rhyngwladol; yn ogystal â sut y gallai ddefnyddio cyfraith Lloegr i wasanaethu ei reolaeth o'r gyfraith ryngwladol a datblygu amcanion.

Yn yr adroddiad ceir:

i) Ailddatganiad wedi'i ddiweddaru o raddfa a chwmpas gwerth ychwanegol y mae cyfraith Lloegr yn ei gyfrannu i economi'r byd.

ii) Ailddatganiad o'r hyn sydd eisoes yn wybyddus am y graddau y mae darpariaeth cyfraith Lloegr ar gael i ddarparwyr cenhedloedd eraill. Mae hyn yn ategu ymhellach gwerth a pherthnasedd byd-eang cyfraith Lloegr i eraill.

iii) Cyfrif o sut mae'r DU wedi buddsoddi'n barhaus yng nghyfraith Lloegr er lles eraill yn ogystal ag er ei les ei hun. Mae hyn yn rhan bwysig o'r hanes i'w adrodd gan fod hyd a lled ecosystem gyfreithiol y DU a sut y mae'n cyfrannu at ddatblygu a gorfodi cyfraith Lloegr, yn nodwedd nad all eraill gystadlu â hi eto.

iv) Adolygiad o lle mae cyfraith Lloegr yn talu'n ôl i economi'r DU. Er ei bod yn anodd cyfrifo'n gywir heb fodelu cymhleth, gallwn ddweud â sicrwydd fod yr hyn a geir yn llawer mwy nag unrhyw werth a gofnodir trwy allforion neu fuddsoddi'n fewnol i'r sector cyfreithiol. Cronnir manteision clir i sectorau eraill economi'r DU o ddefnyddio cyfraith Lloegr ledled y byd. Fodd bynnag, cronnir llawer o'r talu'n ôl y mae'n hawdd ei adnabod i'r sector cyfreithiol ar ffurf refeniw a gaiff ei greu gan ddarparwyr gwasanaethau cyfreithiol a gweithgarwch datrys anghydfodau rhyngwladol. Sefydla hyn fod pwysigrwydd mewn hyrwyddo cyfraith Lloegr ochr yn ochr â gwasanaethau gweithwyr proffesiynol cyfreithiol y DU a gweithgarwch datrys anghydfodau rhyngwladol.

v) Dadansoddi'r penderfyniad i brynu mewn perthynas â chyfraith lywodraethol. Mae hyn yn ymwneud ag achosion defnyddio ar gyfer cyfraith Lloegr, gyda rhyw gymaint yn cynnwys cyfraith Lloegr yn ddiofyn a rhyw gymaint yn faterion o ddewis penodol o gymal cyfraith lywodraethol. Mae'r adroddiad yn mynd yn ei flaen i edrych ar rai o'r ffactorau mwyaf cyffredin sy'n chwarae rhan pan wneir dewis penodol. Caiff y rhain eu rhannu'n ffactorau "diffiniol" ac "argyhoeddiadol". Mae rhai o'r ffactorau hyn yn ymwneud â'r gwasanaethau y mae darparwyr gwasanaethau cyfreithiol y DU ac

ecosystem gyfreithiol ehangach y DU yn ei chynnig a rhai yn ymwneud ag ansawdd darparu datrysiadau anghydfodau. Dylai'r ffordd y mae'r ffactorau hyn yn cael effaith ar y penderfyniad a gymerwyd ynghylch cyfraith lywodraethol mewn contract masnachol ddylanwadu ar sut y caiff cyfraith Lloegr ei hyrwyddo yn y dyfodol.

vi) Asesiad o sut mae awdurdodaethau eraill yn cynyddol gystadlu yn erbyn darparwyr gwasanaethau cyfreithiol y DU a gwasanaethau datrys anghydfodau, yn aml trwy fanteisio ar gyfraith Lloegr. Dengys hyn lle gellid bod gwendidau yng nghynnig cyfreithiol y DU, o gofio y gallai cystadleuwyr fod yn ennill y blaen ar gyflawni'r ffactorau argyhoeddiadol ar gyfer dewis cyfraith lywodraethol, er enghraifft trwy gryfhau eu capasity gorfodi. Mae dadansoddi'r cystadleuydd hefyd yn tynnu sylw at y buddsoddiad sylweddol y mae eraill yn ei roi i mewn i baratoi dyfodol a yrrir gan dechnoleg.

vii) Dadandoddiad o risgiau a chyfleoooedd eraill sy'n cael effaith neu sydd â'r grym i gael effaith ar y galw am gyfraith Lloegr, gwsanaethau cyfreithiol y DU a gweithgarwch datrys anghydfodau yn y dyfodol, a'u cyflenwi.

viii) Strategaeth a awgrymir i reoli a hyrwyddo cyfraith Lloegr a sector cyfreithiol y DU yn ehangach yn y dyfodol.

Mae'r drafodaeth a ganlyn yn trafod mwy ar y pwyntiau hyn.

Beth ydym yn ei werthu?

Pan fo gwlad yn marchnata ei gwasanaethau cyfreithiol neu'n hyrwyddo'i hun fel canolfan datrys anghydfodau, fel arfer nid yw ond yn meddwl am sut y gallai ddenu buddsoddiad mewnol neu hyrwyddo gwasanaethau ei chyfreithwyr. Mae'r DU mewn safle gwahanol iawn oherwydd cyfraith Cymru a Lloegr ("Cyfraith Lloegr").

Weithiau, cyfeirir at gyfraith Lloegr fel "cyfraith barod" neu "ased byd-eang". Y rheswm dros hyn yw y defnyddir Cyfraith Lloegr, fel yr Iaith Saesneg, i iro olwynion masnach ac arian byd-eang.

Fel corff o gyfraith, mae'n elwa ar y manteision hysbys iawn sy'n nodweddu holl systemau cyfraith gyffredin - yn cynnwys, nid leiaf, y sicrwydd a gyfyd o flaenoriaethau'r gyfraith gyffredin o'r hyn a ysgrifennir mewn contract. Mae hefyd, yn manteisio ar gorff arbennig o ddyfn o gynsail sy'n manteisio ar y safle ganolog y mae cyfraith Lloegr wedi'i ddal yng nghanol system fyd-eang busnes a masnach ers canrifoedd. Mae hyn wedi peri i gyfraith Lloegr fod y corff o gyfraith a ddyfynnir fwyaf ym myd y gyfraith gyffredin. I'r rhai sy'n trafod contractau, golyga hyn fod cyfraith Lloegr yn cynnig eglurder ynghylch sut y byddid yn ymdrin ag unrhyw anghydfod y gallent ei chael yn y dyfodol.

Mae'r manteision ymlynol hyn o gyfraith Lloegr yn dod yn arbennig o berthnasol nawr, wrth i blatiau tectonig gweithgarwch economaidd symud a diwydiannau newydd ymddangos, wedi'u gyrru gan ddeallusrwydd artiffisial a thechnolegau datblygedig eraill. Cyfyd newid technolegol gwestiynau heriol ynghylch defnyddio'r gyfraith gydag amgylchiadau newydd. Mae byd cwantwm neu fyd sy'n dibynnu ar sicrwydd cadwyn gyswllt yn galw am ffordd newydd o feddwl ynghylch sut i ddiffinio partneriaeth neu hawl dros ased, er enghraifft. Mae cyfraith Lloegr mewn lle arbennig o dda i godi i'r her hon, o gofio pa mor addas ydyw yn wyneb newid.

Ond nid yw cyfraith Lloegr yn bodoli mewn gwactod. Swyddogaeth y rhai hynny sy'n ei datblygu a'i defnyddio ydyw. Y rheswm pam bod cymaint o ddefnydd ohoni a bod modd iddi addasu yw caiff ei llunio'n barhaus gan broffesiwn cyfreithiol hynod arbenigol, barnwriaeth annibynnol ac arbenigol ac ecosystem ategol gyfoethog. Y ffactorau hyn i gyd, yn gweithio gyda'i gilydd, gyda chyfraith Lloegr yn ganolog iddynt, sydd wedi fy helpu i wneud y DU mor llwyddiannus fel allforiwr a chanolfan gwasanaethau cyfreithiol.

Beth mae'r DU yn ei hyrwyddo?

Mae gan y DU dri phrif ased y mae modd eu hallforio:

- Cyfraith Lloegr ei hun, ar ffurf ei hachosion defnydd amrywiol;
- Gwasanaethau ymarferwyr cyfreithiol yn rhyngwladol sydd â chymwysterau a enillwyd yn y DU.
- Gwasanaethau datrys anghydfodau yn y DU.

Mae'r tri 'chynnyrch' hyn yn rhyng-gysylltiedig, gyda gwaith ecosystem cyfreithiol ehangach yn ychwanegu atynt yn ymarferol ond cyfraith Lloegr yw sylfaen y cynnig hwn.

Sut mae sector cyfreithiol y DU yn dod ynghyd



Bydd deall sut y defnyddir cyfraith Lloegr yn rhyngwladol ar hyn o bryd yn gymorth i egluro sut y gellid marchnata, yn y dyfodol, sector cyfreithiol y DU ehangach sy'n manteisio arni ac sy'n dychwelyd gwerth i economi'r DU.

Cyfraniad cyfraith Lloegr i economi'r byd

Ni chaiff y rhan y mae cyfraith Lloegr yn ei chwarae heddiw mewn busnes a masnach byd-eang bob amser ei gwerthfawrogi'n eang oherwydd mai prin y caiff ei chyflwyno'n un llun cydlynol, ynghyd â'r rhesymeg sydd wedi gyrru ei defnydd mewn amgylchiadau penodol.



- Gwneir defnydd mawr o gyfraith Lloegr mewn contractau safonol diwylliannol mewn meysydd megis masnachu nwyddau, llongau a deilliaid ariannol. Ffefrir contractau a lywodraethir gan gyfraith Lloegr gan eu bod yn ymgorffori degawdau, os nad canrifoedd, o gynsail. Golyga hyn i'r defnyddwyr fod telerau ac amodau'r contract yn hysbys a bod iddynt bremiymau risg is nag a fyddai iddynt fel arall. Haws, hefyd, yw canfod arian ar gyfer trafodion dan gontractau o'r fath oherwydd bod benthycwyr a chyfryngwyr ariannol erall yn ffafrio contractau cyfraith Lloegr. Nid hawdd yw eu trechu gan amgylchiadau o'r tu allan neu ymyrraeth wleidyddol ac mae'n glir sut y dylid ymdrin â nhw mewn sefyllfaoedd o ansolfedd.

- Defnyddir cyfraith Lloegr yn eang, hefyd, mewn diwydiannau sydd wedi datblygu ffafriaeth am gymalau cyfraith lywodraethol Lloegr.Dyma yw'r achos, er enghraifft, yn y sectorau yswiriant ac ariannol, lle defnyddir cyfraith Lloegr yn benodol ond mae hi, hefyd, yn wir am feysydd eraill, megis peirianneg adeiladu, lle mae safonau perthnasol yn dibynnu'n sylweddol ar gyfraith Lloegr.

- Ffefrir cyfraith Lloegr gan ddiwydiannau y mae angen iddynt wneud penderfyniadau arian mawr ynghylch buddsoddi neu lle byddai gofyn am waith Ymchwil a Datblygu drud. Mae gan lysoedd y DU hanes cryf o roi arweiniad i'r rhai hynny y mae angen iddynt ddeall sut y byddir yn dehongli'r hawliau yng nghyswllt patentau neu ddyfeisiadau. A hyd yn oed pan fo technoleg yn eithaf newydd, gall cyfraith Lloegr gynnig arweiniad ar yr hyn a allai ddigwydd pe ceid anghydfod ynghylch perchnogaeth, er enghraifft, trwy droi at brofiad blaenorol.

- Yn y blynyddoedd diweddar, mae cwmnïau tramor sydd angen ailstrwythuro ond eisiau cadw cymaint o werth cyfranddalwyr â phosib wrth wneud hynny, wedi bod yn defnyddio cyfraith Lloegr. Gall unrhyw gwmni ddefnyddio cyfraith Lloegr yn y modd hwn os caiff ei ymgorffori neu os yw wedi sefydlu arf â phwrpas arbennig yn y DU.

- Yn olaf, caiff cyfraith Lloegr ei chydnabod gan nifer o fusnesau yn ddewis atyniadol, niwtral pan fyddant yn trafod contract ac yn methu cytuno gyda'r ochr arall pa un o'u cyfreithiau ddylai lywodraethu eu perthynas.

Mae'r gwahanol resymau hyn dros ddefnyddio cyfraith Lloegr yn dweud mwy am le a sut y gellid gwahaniaethu rhwng y gwasanaethau sy'n manteisio ar gyfraith Lloegr a'r gystadleuaeth sy'n tyfu a sut y gellid eu hyrwyddo yn y dyfodol.

Mae cyfraith Lloegr yn agored

Mae nodweddion pwysig eraill cyfraith Lloegr, hefyd, wedi helpu i hyrwyddo'i defnydd.

Yn anad dim, mae'n agored i eraill ddarparu neu fanteisio ohoni. Ceir nifer o unigolion o wledydd eraill sy'n dewis, bob blwyddyn, ymgymryd ag addysg a hyfforddiant cyfreithiol yn y DU a chymhwyso fel ymarferwyr cyfreithiol Cymru a Lloegr. Ceir, hefyd, awdurdodaethau eraill sy'n defnyddio cyfraith Lloegr fel arf wrth ddatblygu eu heconomïau.Er y gall hyn ymddangos fel cystadleuaeth yn unig, yn wir, mae'r defnydd ehangach a wneir o gyfraith Lloegr yn rhyngwladol, yn cynnwys gan awdurdodaethau eraill er mwyn creu eu gwerth eu hunain, i'w groesawu. Po fwyaf y defnyddir cyfraith Lloegr, y mwyaf y gwneir i ffwrdd â chostau ffrithiannol i fusnesau'r DU o symud rhwng systemau cyfreithiol .

Yn ail, defnyddir cyfraith Lloegr yn eang oherwydd fod y DU yn buddsoddi'n drwm i sicrhau ei bod yn gyfoes. Hwn yw gwaith nifer o randdeiliaid ar draws y DU yn yr ecosystem gyfreithiol ehangach, sydd wrthi'n creu ac yn cynnal y gyfraith.

Yr ecosystem gyfreithiol yng Nghymru a Lloegr



Yr enillion ar fuddsoddiad

Mae'r DU yn buddsoddi yng nghyfraith Lloegr ac, wrth wneud hynny, mae'n cael enillion ar y buddsoddiad hwn. Daw'r enillion hyn mewn amrywiol ffyrdd, yn uniongyrchol i'r sector cyfreithiol (ar ffurf creu refeniw) ac yn anuniongyrchol i'r economi ehangach. Caiff yr enillion ehangach hyn eu tanchwarae'n aml ond maent yn arwyddocaol.

Er enghraifft, diolch i rôl fyd-eang cyfraith Lloegr, mae busnesau'r DU sy'n datblygu dramor yn fwy tebygol o allu defnyddio cyfraith Lloegr nag y byddai eu cyfoedion tramor yn gallu defnyddio'u cyfraith genedlaethol eu hunain. Daw y derbyniad eang mai cyfraith Lloegr yw cyfraith busnes rhyngwladol, yn arbennig felly o gydnabod ei "niwtraliaeth". Ystyr niwtraliaeth yn y cyd-destun hyn yw y cydnabyddir yn eang na fyddai busnes yn y DU yn disgwyl cael ei drin yn wahanol i fusnes tramor gan lysoedd y DU. Nid oes rhagfarn o blaid busnesau'r DU.

Mae cyfraith Lloegr, hefyd, yn cefnogi buddsoddiad mewnol i mewn i'r DU mewn sectorau twf allweddol lle mae sicrwydd cyfreithiol yn bwysig. Er bod statud a rheoliadau'n bwysig wrth roi eglurder i fuddsoddwyr, gall cyfraith achos Lloegr helpu i lenwi'r bylchau a dehongli sut y defnyddir darpariaethau. Mae dyfnder y profiad y gellir ei weld yng nghyfraith Lloegr i sectorau megis gwasanaethau ariannol, er enghraifft, yn helpu i wneud y DU yn gyrchfan cyfarwydd a chyfforddus i fuddsoddwyr.

Yr her i'r DU nawr yw cynnal neu gynyddu'r enillion y mae'n eu cael o ased cyfraith Lloegr y mae'n ei ddarparu i weddill y byd.Ond mae'r her hon yn gymhleth oherwydd cefnlen newidiol o risgiau a chyfleoen rhyngwladol newydd, yn ogystal â cystadleuaeth sy'n codi.

Heriau i safle cyfraith Lloegr yn arwain y farchnad

Ni chaiff safle cyfraith Lloegr fel arweinydd y farchnad a chyfraith llywodraethol dros arian rhyngwladol ei warantu yn y dyfodol. Mae mwy a mwy o awdurdodaethau'n cydnabod y cyfraniad a all gwasanaethau cyfreithiol masnachol trawsffiniol ei wneud i'w heconomïau, yn uniongyrchol ac wrth gefnogi twf sectorau eraill. Mae'r farchnad mewn cyfraith lywodraethol ar gyfer trafodion a datrys anghydfodau trawsffiniol bellach yn cynnwys: Efrog Newydd, hybiau rhanbarthol sy'n tyfu, megis Hong Kong, Singapôr a Dubai a marchnadoedd newydd, megis yr Iseldiroedd.

Er bod safle cyfraith Lloegr mewn rhai meysydd, megis contractau safonol a ffafriaethau sectorau, er enghraifft, yn gallu ei gwneud yn anodd symud, mae cystadleuaeth yn tyfu am y contractau sydd, yn syml, yn chwilio am leoliad niwtral, da. Mae cystadleuwyr y DU yn ceisio denu busnesau trwy gynyddu eu gwaith canolbwyntio ar dechnoleg ac arloesedd, o ran y cyfleusterau y maent yn eu cynnig a gallu eu cyfreithiau i ddatrys anghydfodau technolegol. Ond maent hefyd, yn barhaus, yn chwilio i wneud gwelliannau i brofiad cyffredinol y defnyddiwr y maent yn ei gynnig yn eu llysoedd.

Yn ogystal â chystadleuaeth sy'n tyfu, mae yna risgiau eraill yn wynebu cyfraith Lloegr.Mae'r risgiau mwyaf, o bosib, yn y newidiadau sy'n digwydd yn yr economi byd-eang. Fel cyfraith barod ryngwladol, daw cyfraith Lloegr i gysylltiad â Deallusrwydd Artiffisial (AI), technoleg a newid strwythurol yn y system ariannol ryngwladol wrth i oruchafiaeth doleri'r UDA grebachu. Ond ceir, hefyd, risgiau strategol, mewnol ar ffurf herio gwaith cynnal gwead domestig rheolaeth y gyfraith a sicrhau y byddai talent i'w gael yn nyfodol y diwydiant cyfreithiol.A cheir risgiau tactegol tymor byr a gyfyd o bolisïau, rheoliadau a bylchau mewn deddfwriaeth y gellid ymdrin â nhw yn y tymor byr.

Categoreiddio risgiau i gyfraith Lloegr

Cyfleoedd i dyfu cyfraith Lloegr

Ar y llaw arall, gyda newid daw cyfleoedd newydd hefyd.

Mae gan gyfraith Lloegr yr arfau angenrheidiol yn ei storfa i fod y dewis diofyn i sectorau newydd o weithgarwch. Efallai bod safonau neu gymalau safonol newydd y gellid eu datblygu lle gellid gwreiddio cyfraith Lloegr ynddynt, fel y mae wedi bod gyda chontractau nwyddau a deilliaid ariannol. Ond ar y cyd â'r ymarferwyr cyfreithiol a'r farnwriaeth sy'n helpu i'w lunio, gall cyfraith Lloegr ddarparu ymatebion defnyddiol i'r heriau eraill sy'n wynebu'r economi byd-eang. Mae'r trawsnewidiad gwyrdd ac anghenion isadeiledd a buddsoddi yn y gwledydd datblygol yn ddwy enghraifft o'r fath.

Beth ddylai'r DU ei wneud?

Yn erbyn y cefndir hwn o gystadleuaeth sy'n tyfu, risgiau a chyfleoedd newydd, mae angen i'r DU benderfynu sut i ymateb.

Fel man cychwyn i ymateb o'r fath, mae angen rhoi sylw i'r cwestiwn, beth y mae prynwyr gwasanaethau cyfreithiol yn chwilio amdano.

Sut y mae prynwyr cyfraith Loegr yn gwneud eu penderfyniadau?

Ymddengys nad oes un prif ffactor i fusnes sy'n dewis y gyfraith lywodraethol ar gyfer eu contractau. Yn hytrach, ceir ffactorau sy'n pennu'r dewis hwnnw, oherwydd gofynion cyfraith leol neu daerineb y rhai hynny sy'n ariannu'r contract a ffactorau fydd yn argyhoeddiadol.

Beth sy'n cael effaith ar y penderfyniad ar gymalau cyfraith lywodraethol a beth y gellid ei wneud i ddylanwadu ar y penderfyniadau hynny yn y dyfodol?

Ffactorau'n dylanwadu ar y penderfyniad i brynu	Beth i'w wneud	Sut/Anfon neges	Pwy
Diffiniol: Wedi'i gynnwys mewn contractau safonol a Phrif gytundebau	Ceisio cyfleoedd i ddylanwadu ar gontractau safonol newydd posibl a rhai sy'n ymddangos	Ymgysylltu â chyrff diwydiant	Sector mewn cydweithrediad â chyrff diwydiant eraill e.e. Cyllid y DU
Diffiniol: Gofyniad Cyfraith leol (e.e.isadeiledd)	Nodi rhannau o fargeinion isadeiledd pwysig ac ati a allai fod ag anghenion ariannu a lywodraethir gan gyfraith Lloegr y gellid cael gwared â nhw.	Codi ymwybyddiaeth mewn Economïau Marchnata a Datblygu sy'n Ymddangos (EMDE) o'r rhan y gall cyfraith Lloegr ei chwarae mewn llunio a chodi ffurfiau amgen o arian ar gyfer prosiectau buddsoddi Ymgysylltu â banciau datblygu rhanbarthol	Ymgyrch ar y cyd y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) /sector gyda Dinas Llundain/ y Gymanwlad Dramor a swyddi y Swyddfa Ddatblygu (FCDO) dramor/Adran Busnes a Masnach (DBT)
Diffiniol: Polisi caffael cyhoeddus	Ceisio dylanwadu ar bolisi caffael lleol lle mae'n gweithredu fel rhwystr i gyfraith Lloegr	Manteision defnyddio cyfraith Lloegr mewn rhai amgylchiadau a allai, fel arall, fod wedi'u cyfyngu. Cyfleoedd i gyfreithwyr lleol gyflawni cyfraith Lloegr	Swyddi/DBT mewn ymgysylltiad polisi masnach
Diffiniol: Barn y cyllidwyr/cyllid sy'n galluogi'r trafodiad	Buddsoddi mewn cyfathrebu â'r sector ariannol ac ymwneud ar y cyd gyda sector ariannol y DU	Targedu penderfynwyr y sector ariannol - yn enwedig meysydd megis ecwiti preifat sy'n gogwyddo tuag at yr UDA	Ymgysylltiad yr MoJ/y sector â'r Cwnsler Cyffredinol
Argyhoeddiadol: Ffafriaeth adrannol	Ategu ffafriaeth adrannol cyfredol, ceisio ychwanegu rhai newydd	Targedu sectorau allweddol sy'n ymddangos: Technoleg, gwasanaethau ariannol arloesol, trawsnewidiad gwyrdd, lefel uchel o waith Ymchwil a Datblygu.	Yr MoJ/Sector yn Canolbwyntio ar Gwnsleriaid Cyffredinol mewn Sectorau Targed
Argyhoeddiadol: Ffafrio cyfraith y Famwlad	Cynyddu rhestri a chorffori'r DU	Pwysleisio manteision Pencadlys yn y DU, dyfynnu astudiaethau achos	Gwaith yr MoJ/sector gyda'r Ddinas ehangach/Grŵp Cyfnewidfa Stoc Llundain (LSEG) ar restri ac ati
Niwtraliaeth	Pwysleisio ffactorau denu i gynulleidfaoedd targed	Amlygu moderneiddio, manteision busnes	Ymgysylltu â Chwnsleriaid Cyffredinol

Mae deall sut y mae penderfynwyr yn dewis cyfraith llywodraethol yn cyflwyno ffordd ymlaen i strategaeth y DU. Mae'n helpu i benderfynu sut y gallai'r DU rannu'r ffordd y mae'n gweithredu mewn gweithgarwch hyrwyddo yn y dyfodol er mwyn dylanwadu ar y penderfyniadau hynny.

i) **Lle na phenderfynir ymlaen llaw ar y "penderfyniad i brynu" ac na ddylanwadir arno gan alwadau'r sector, mae ffynhonnell yr arian yn debygol o fod yn arbennig o bwysig**. Awgryma hyn y dylai'r sector gwasanaethau ariannol: banciau buddsoddi, cronfeydd credyd preifat, banciau masnachol sy'n ymwneud â benthyca syndicetiedig a chyllid asedion ac, yn gynyddol felly, rai sy'n herio a thechnolegau ariannolfod yn darged pwysig i weithgarwch hyrwyddo cyfraith y DU.

ii) Sectorau y mae'n ofynnol iddynt fuddsoddi'n drwm neu dros dymor hir sydd â'r risg fwyaf. Mae cyfraith Lloegr a gwasanaethau sector cyfreithiol y DU yn cynnig natur ragweladwy a mynediad at gostau ariannol is. M**ae'r DU mewn lle da i wasanaethu anghenion cyfreithiol diwydiannau, megis technoleg, fferylliaeth, isadeiledd neu'r rhai hynny â gofynion eiddo deallusol neu waith Ymchwil a Datblygu sylweddol, yn ogystal â chwmnïau sy'n tyfu'n gyflym ac yn chwilio am blatfform ar gyfer twf byd-eang.** Efallai y bydd y neges i'r sectorau hyn wedi'i liwio fymryn yn wahanol.

iii) **Mae Cwnsleriaid Cyffredinol mewn busnesau amlwladol sy'n fyd-eang neu'n mynd yn fyd-ean**g yn gynyddol bryderus ynghylch risg reoleiddiol sy'n tyfu, yn enwedig felly yn sgil darnio mewn cyfundrefnau rheoleiddiol. Gall gwasanaethau cyfreithiol y DU gynnig cyrhaeddiad byd-eang unigryw wedi'i gynnal gan niwtraliaeth y llysoedd masnachol a ffurfiau eraill o ddatrys anghydfodau.

iv) Ceir **ffynonellau traddodiadol o gryfder sectorau** na ddylid eu hesgeuluso (e.e. Yswiriant, Llongau ac ati). Gellid rhoi mwy o bwysoliad ar y rhain mewn gweithgarwch yn y gwledydd hynny lle mae'r sectorau hyn yn chwarae rhan bwysig yn yr economi.

Strategaeth y Dyfodol

Mae angen i strategaeth yn y dyfodol osod cyfraith Lloegr yn gyfraith barod ar gyfer yr hanner canrif nesaf ac egluro sut, drwy hyn, y bydd yn creu busnes i sector cyfreithiol y DU wrth, hefyd, ychwanegu gwerth at economi'r DU a'r economi byd-eang.

i) Nod

Dylid gosod cyfraith Lloegr fel yr olew ym mheiriant yr economi AI byd-eang/technolegol. Dylai, hefyd, gael ei ategu'n gyfraith o ddewis mewn system gwasanaethau ariannol rhyngwladol sy'n newid.

ii) Beth ddylai neges y DU fod?

Isod ceir negeseuon allweddol i'r DU eu hamlygu.

- Mae'r DU yn cynnig cyfuniad unigryw o wasanaethau sy'n canolbwyntio ar **dyfu a diogelu ffyniant economaidd ar draws system ryngwladol o arian a masnach**. Mae hyn yn cwmpasu cyfraith Lloegr, gwasanaethau cyfreithiol, datrys anghydfodau a gwasanaethau ategol.
- Mae'n dechrau o nodweddion penodol cyfraith Lloegr. Nid mater o ddenu buddsoddiad o'r tu allan neu gyflafareddu yw hyrwyddo cyfraith Lloegr. Mae cyfraith Lloegr wedi esblygu yn arf â defnydd trawsffiniol eang, diolch i'w ddefnydd mewn dogfennau arian rhyngwladol. Dyma'r man cychwyn i hyrwyddo arbenigedd cyfreithiol y DU a gwasanaethau datrys anghydfodau.

- Mae ganddo **hanes profedig o fod yn gyfraith arloesedd.** O sylfaen o gynsail dwfn, gall addasu i roi sicrwydd cyfreithiol i dechnolegau newydd.
- Gall **hefyd gynhyrchu datrysiadau dychmygus i risgiau ac anghenion diwydiannau penodol.** Wedi'i wneud yn bosibl gan ddyfnder heb ei debyg ei arbenigedd sectoraidd ar draws y DU, cefnogaeth ecosystem ffyniannus, wedi'i gynnal gan farnwriaeth a gaiff ei pharchu'n fyd-eang.
- Mae gwasanaethau cyfreithiol y DU a chyfraith Lloegr **yn cymryd camau i ddiogelu ymestyniad rhyngwladol i gleientau o unrhyw wlad**. Gyda'i gilydd maent yn rhoi i ddefnyddwyr fynediad gwell at gyfalaf twf ac yn cynnig cyrhaeddiad byd-eang trwy bresenoldeb cynghorwyr cyfreithiol y DU trwy'r byd i gyd a chydnabyddiaeth ragorol o ganlyniadau datrys anghydfodau yn y DU.
- Mae'r DU yn buddsoddi'n helaeth yn nyfodol cyfraith ar gyfer oes yr AI a'r crypto ac i mewn i'r cyfnod cwantwm.
- Mae rheolaeth y gyfraith, boed yn rhyngwladol neu gartref, yn gynhenid i system gyfreithiol y DU a sector y gwasanaethau cyfreithiol ac mae'r DU yn buddsoddi'n strategol i'w chynnal.

iii) Pwy ddylai'r gwahanol negeseuon hyn eu targedu?

Mae dadansoddi pwy a beth sy'n pennu dewis y gyfraith lywodraethol mewn unrhyw benderfyniad contractio'n awgrymu bod:

- Gwahanol gategorïau o gleientau i anfon negeseuon atynt ynghylch cyfraith Lloegr ac mae angen eu trin yn wahanol. Yn eu plith mae: penderfynwyr sector preifat, llywodraethau a sefydliadau ariannol rhyngwladol a banciau datblygu. Mewn rhai achosion, gallai'r sefydliadau hyn fod yn gyfryngwyr ac yn benderfynwyr a all ddylanwadu ar benderfyniad yn uniongyrchol mewn achosion eraill.
- Rhaid ymgymryd â'r gwaith anfon negeseuon fel cyfrifoldeb ar y cyd rhwng Llywodraeth, sector preifat a'r farnwriaeth. Ile bo'n bosibl. Bydd angen, hefyd, annog rhanddeiliaid eraill yn y DU y tu allan i'r sector cyfreithiol i weld y rhan y gallant ei chwarae yn hyn a'r manteision a ddaw iddynt, o gofio pwysigrwydd y safle y bydd gan gyfraith Lloegr i ddyfodol economi cyfan y DU.

iv) Sut y dylid eu cyflawni?

Mae amrywiol ffyrdd y gellid eu defnyddio i gyflwyno'r symud strategol hwn. Yn eu plith mae:

- Ailgyfeirio gweithgarwch cenhadaeth fasnach dan arweiniad y llywodraeth tuag at brynwyr gwasanaethau cyfreithiol a'r rhai hynny a all ddylanwadu arnynt: Cynadleddau Cwnsleriaid Cyffredinol, rhwydweithiau sectorau ariannol a chymdeithasau masnach ac ati. Rôl y llywodraeth fyddai amlygu negeseuon allweddol, sicrhau platfform cryfach ar yr hwn y gall y sector ymgysylltu â chleientiaid posibl.
- Ymgysylltiad uniongyrchol â llywodraethau a sefydliadau rhyngwladol perthnasol eraill, megis Banc y Byd a Sefydliad Masnach y Byd i amlygu'r rhan y mae cyfraith Lloegr yn ei chwarae mewn creu gwerth byd-eang.
- Mwy o ymdrech i ailymgysylltu â sectorau'r DU sydd â buddiant breintiedig yn llwyddiant parhaus cyfraith Lloegr. Gellid defnyddio rhanddeiliaid yn y sectorau hyn i chwyddo gwaith anfon negeseuon y sector cyfreithiol.
- Canolbwyntio mwy ar ymgysylltu â Swyddi FCDO gyda dewisiadau clir ar gyfer ymgysylltiad a gweithgarwch i wledydd allweddol.

v) Beth sydd angen ei wneud i gefnogi gwaith cyflawni'r strategaeth?

Mae angen cynnal hyn i gyd gyda gwaith cydlynu allanol mwy gweladwy a chydlyniant mewnol cliriach. Mae hyn yn arwain at ddeuddeg argymhelliad ar wahân, a amlinellir isod:

Argymhelliad 1: **Cydlyniant o fewn y sector.**Mae angen rolau cliriach i'r llywodraeth a'r sector preifat wrth farchnata cyfraith Lloegr a gwasanaethau cyfreithiol yn y dyfodol. Yn y dyfodol, dylai'r llywodraeth fod yn arwain ar ddiffinio'r achos strategol cyffredinol dros gyfraith Lloegr a sector cyfreithiol y DU fel bo raid, fel ymbarél i hyrwyddo buddiannau'r DU yn ehangach. Er mwyn hyrwyddo cydlyniant mewnol o amgylch blaenoriaethau allweddol, dylid dynodi arsyllfeydd cydlynu canolog ar gyfer themâu allweddol, megis technoleg a dyfodol gwasanaethau ariannol. Byddent yn gweithredu fel cyfryngwyr creu enw da pwysig a sicrhau canolfan ganolog i rannu a chyfnewid yn y DU ac yn rhyngwladol. Mewn achosion penodol, gall hyn olygu, yn syml, wella rôl sefydliad sydd eisoes yn bodoli.

Argymhelliad 2: Cydlyniant yn y DU y tu draw i'r sector. Gellid defnyddio cynadleddau a digwyddiadau thematig ynghylch y gyfraith mewn sectorau arwyddocaol o ddiddordeb yn y dyfodol i godi ymwybyddiaeth a chasglu gwybodaeth am yr angen i ddiweddaru'r gyfraith ymhellach. Er enghraifft, gallai cyfres o ddigwyddiadau ar " ddyfodol cyfraith Lloegr a..." dargedu grwpiau allweddol o gymdeithasau masnach y DU, Cwnsleriaid Cyffredinol ac ati.

Argymhelliad 3: Dull gweithredu ar draws Whitehall. Mae angen deall grym cyfraith Lloegr yn ehangach ar draws Whitehall, nid yn unig i sicrhau'r buddsoddiad angenrheidiol yn y sector ar gyfer y dyfodol ond, hefyd, i sicrhau bod modd adnabod agweddau cyfreithiol o feysydd newydd o weithgarwch economaidd ac ymdrin â nhw'n gynt nag ar hyn o bryd.Mae rolau ar gyfer y DBT, yr FCDO a Swyddi Tramor gan fod cyfraith Lloegr yn arf a allai fod yn arbennig o ddefnyddiol yn eu gwaith.

Argymhelliad 4: Cydweithredu ar draws awdurdodaethau.Ymarferiad cydweithredol yw darparu gwasanaethau, megis y gyfraith. Dylai'r DU barhau i hyrwyddo mwy o rwydweithio a chydweithio rhwng awdurdodaethau, yn cynnwys trwy sefydliadau megis SIFoCC a Chomisiwn y Gyfraith.

Yr un pryd, mae angen gwneud gwaith i gynnal yr isadeiledd sy'n gwneud cyfraith Lloegr yn ddeniadol. Bydd hyn yn cynnwys:

Argymhelliad 5: Parhau i fuddsoddi mewn isadeiledd cyfreithiol a barnwrol. Nid yn unig y mae perfformiad y llysoedd yn berthnasol i gystadlu ond, hefyd, mae gohiriadau mewn llysoedd yn golygu cost i'r economi. Yn gysylltiedig â hyn mae mynegiannau rheolaeth cyfraith rhyngwladol a all ddylanwadu ar brisiau cynhyrchion rheoli risg ariannol i'r DU, trwy'r rhan y maent yn ei chwarae yn dylanwadu ar asiantaethau sgorio a chwaraewyr eraill yn y system ariannol. Mae angen i'r DU wella ei safle yn y mynegiannau hyn i aros yn gystadleuol. Mae hyn hefyd yn rhan bwysig o reoli enw da cyffredinol i'r DU.

Mae buddsoddiadau isadeiledd eraill yn ymwneud â rheoli talent yn y sector:

Argymhelliad 6: Gwella mynediad cyfreithwyr a chyfalafareddwyr tramor at fisa. Mae'r DU yn colli ei natur gystadleuol yn erbyn canolfannau datrys anghydfodau eraill a all gynnig mwy o sicrwydd i ymarferwyr ynghylch eu gallu i gael fisa gwaith ar amser. Byddai mwy o eglurder yn y maes hwn yn helpu'r DU i ailafael yn ei natur gystadleuol.

Argymhelliad 7: Blaenoriaethu a thargedu'r llwybr talentau. Rhaid rhoi mwy o gydnabyddiaeth i rôl a phwysigrwydd tymor hirmyfyrwyr cyfraith rhyngwladol i economi'r DU.

Gallai hyn, er enghraifft, olygu uchafswm uwch o fyfyrwyr tramor ar gyfer cyrsiau cyfraith proffesiynol a chynlluniau fyddai'n fodd i raddedigion y gyfraith o dramor aros ar fisa graddedigion yn y DU am gyfnod hwy er mwyn hwyluso ennill cymwysterau.

Atgymhelliad 8: Adnabod yr ecosystem ehangach a'i hyrwyddo. Byddai mynegi ac arddangos dyfnder a maint ecosystem ehangach sector gyfreithiol y DU yn helpu i gyfathrebu'r dyfnder a'r soffistigeiddrwydd llwyr y mae'n ei gynnig a helpu sefydliadau i wella synergeddau a chydweithrediad ar draws y sector.

Argymhelliad 9: Cysoni lle bo'n ddefnyddiol gyda'r Undeb Ewropeaidd. Wrth i'r DU geisio ailgydbwyso ei pherthynas gyda'r Undeb Ewropeaidd, dylid ystyried onglau Cyfraith Lloegr. Gallai hyn olygu ailedrych ar gwestiynau o amgylch y Llys Patentau Unedig a Chyfamod Lugano ond, hefyd, ymgysylltiad cynyddol âgwneuthurwyr polisïau yr Undeb Ewropaidd ar drafodaeth tymor hwy, lefel uwch ynghylch sut y gallai'r gyfraith esblygu i gwrdd â heriau newydd.

Yn olaf, ond nid y lleiaf pwysig, mae angen buddsoddi yn y gyfraith ei hun.Golyga hyn:

Argymhelliad 10: Buddsoddi i gadw'r gyfraith yn gyfredol. Golyga hyn fwy o gydweithredu ymhlith rhanddeiliaid ar ddiwygio'r gyfraith a mwy o gefnogaeth i Gomisiwn y Gyfraith. Gallai symposiwm blynyddol ar gyfraith Lloegr neu ar feysydd penodol ohoni, helpu i godi ymwybyddiaeth o sut y mae'n esblygu fel corff o waith a helpu i adnabod bylchau posibl sy'n ymddangos.

Argymhelliad 11: Adnabod meysydd sy'n ymddangos lle gallai cyfraith Lloegr ddod yn gyfraith ddiofyn o ddewis. Bydd angen mewnbwn y sector i hyn i sicrhau y caiff yr opsiwn mwyaf addawol ei ddewis ond byddai meysydd allweddol o asedau digidol neu agweddau eraill o dechnoleg yn fan cychwyn da.

Argymhelliad 12: Gwneud cyfraith Lloegr yr hyn y mae'r sector yn ei ffafrio ar gyfer trawsnewid hinsawdd ac arian arloesol. Bydd sicrhau y gall y gyfraith wasanaethu anghenion sectorau allweddol ac y caiff hyn ei gyfleu mewn deialog gyda'r sector yn helpu i wreiddio cyfraith Lloegr ym mhenderfyniadau'r dyfodol.

Syniadau terfynol

Un o gryfderau bythol cyfraith Lloegr yw ei natur organig. Gyda grym sector cyfreithiol y DU y tu ôl iddi, bydd yn sicr yn addasu i heriau'r dyfodol.Bwriad y camau a awgrymir uchod yw cyflymu'r addasiad hwn a sicrhau ei bod yn gallu parhau i fod yn beiriant twf i'r byd i gyd.